



Amcan Llesiant 15

Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

Sut y byddwn yn gwneud hyn?

Ein cynllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur).

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
A	Trawsnewid, Arloesi a Newid y ffordd rydym yn gweithio ac yn darparu gwasanaethau	
1	Byddwn yn sicrhau bod tîm TIC yn parhau i weithredu rhaglen waith gytbwys er mwyn sicrhau bod TIC yn gallu cynnal a hybu newid a gwelliant cynaliadwy yn y tymor hir, ochr yn ochr â chydabod yr angen am ganolbwyntio ar ymateb i'r heriau ariannol yn y tymor byr a'r tymor canolig.	Mawrth 2020
2	Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu dulliau ymgynghori ac ymgysylltu mwy effeithiol â'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau ynghylch dylunio rhaglen TIC a ffurf gwasanaethau'r dyfodol.	Mawrth 2020
3	Byddwn yn gwneud defnydd gwell o ddata a gwybodaeth i nodi blaenoriaethau TIC yn y dyfodol.	Mawrth 2020
4	Byddwn ni, yn unol â'r Strategaeth Trawsnewid Digidol, yn parhau i ymgysylltu a deall anghenion yr Adran i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau effeithiol. <i>MF5-88</i>	Mawrth 2020
5	Byddwn yn cynnal ac yn datblygu prif lwyfannau digidol yr awdurdod drwy brofion defnyddwyr a thrwy ymchwilio i'r holl bethau diweddaraf o ran technoleg newydd.	Mawrth 2020
6	Byddwn yn gweithredu dull Gweithio Ystwyth newydd yn llawn ledled y Cyngor er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n stoc <i>adeiladau</i> . <i>MF5-12</i>	Mawrth 2020
7	Byddwn yn gweithredu atebion digidol arloesol a fydd yn galluogi mwy o gydweithio ac yn cynorthwyo sefydliadau i weithio'n ddi-dor gyda'i gilydd.	Mawrth 2021
8	Byddwn yn gwneud gwelliannau i system seilwaith TGCh sy'n heneiddio er mwyn sicrhau bod gennym amgylchedd cadarn a sefydlog.	Mawrth 2021
9	Byddwn yn sefydlu pa mor ddichonadwy yw datblygu gwasanaeth caffael ar y cyd gyda Chyngor Sir Penfro. <i>MF5-95</i>	Mawrth 2020
10	Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o'i holl asedau cymunedol, a lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, byddwn yn trosglwyddo perchnogaeth asedau i grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid â diddordeb. <i>MF5-15</i>	Mawrth 2021
11	Byddwn yn cynnal adolygiad i ystyried y dewisiadau o ran darparu depos yn y modd mwyaf effeithiol ledled y sir, gan gynnwys opsiynau ar gyfer rhannu cyfleusterau gyda phartneriaid eraill o'r sector cyhoeddus. <i>MF5-11</i>	Mawrth 2021
12	Byddwn yn ceisio cynyddu nifer y sesiynau defnyddwyr ar wefan y Cyngor. (<i>ICT/005</i>) (<i>Canlyniad Diwedd Blwyddyn 2018/19 - 1,625,512 o ymweliadau</i>)	1.7m ymweliadau
13	Nifer y Gwasanaethau Cyngor Trafodiadol sydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein. (<i>ICT/003</i>) (<i>Canlyniad Diwedd Blwyddyn 2018/19 - 23</i>)	30
B	Byddwn yn dilyn 7 Egwyddor Llywodraethu Da	
B1	Uniondeb a Gwerthoedd (<i>Ymddwyn ag uniondeb, arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu grym y gyfraith</i>)	
1	Byddwn yn hyrwyddo polisiau a gweithdrefnau Ariannol, Strategaeth Atal Twyll ac Arferion Llwg yr Awdurdod. <i>MF5-91</i> (<i>Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 11</i>)	Mawrth 2020

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/Targed
2	Byddwn yn adolygu ein Rheolau Gweithdrefn Ariannol.	Gorffennaf 2019
3	Byddwn yn sicrhau bod y Strategaeth Gorfforaethol yn mynd i'r afael ag Egwyddorion Llywodraethu Da CIPFA/SOLACE 7 drwy gyfrwng yr Amcan Llesiant 'Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau'.	Mawrth 2020
B2	Bod yn agored ac ymgysylltu (<i>Sicrhau ein bod yn agored ac ymgysylltu'n drylwyr â rhanddeiliaid</i>)	
1	Byddwn yn datblygu ymhellach ymagweddau ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor. MF5-91	Medi 2020
2	Byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Diogelu Data Gyffredinol.	Mawrth 2020
3	Byddwn yn parhau i gyflwyno rhaglen hyfforddiant ar gyfer y staff a'r rheolwyr i gyd ar Ddiogelu Data, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn y ddeddfwriaeth sy'n codi o Ddeddf Diogelu Data newydd 2018.	Mawrth 2020
4	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu ein dull o ymgysylltu a chyfranogi gyda phlant a phobl ifanc, gan sicrhau y gwrandewir ar eu llais wrth ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus. MF5-43	Mawrth 2020
5	Byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithio gyda Chomisiwn Ffiniau Cymru ar weithredu camau nesaf yr Adolygiad Etholiadol ar gyfer Sir Gaerfyrddin.	Mawrth 2022
6	Byddwn yn parhau i weithio gyda rhannau penodol o'n cymuned, yn enwedig pobl ifanc Sir Gaerfyrddin a'r Bobl â Gofal mewn Cartrefi Gofal/Nyrsio, i gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cofrestru i bleidleisio.	Mawrth 2022
7	Byddwn yn sicrhau bod y broses ganfasio'n cael ei diwygio ar ddechrau Canfasio Blynnyddol 2020.	Mawrth 2021
8	Byddwn yn adolygu fformat Seminarau Cyllideb y Cyngorwyr gyda'r nod o gynyddu presenoldeb cyffredinol.	Medi 2019
9	Byddwn yn monitro deddfwriaeth/polisi newydd fel y'u cyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ac yn ystyried yr effaith ar y Cyngor.	Mawrth 2021
10	Byddwn yn parhau i ymateb i geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA) oddi mewn i'r terfyn amser Statudol - fodd bynnag, byddwn yn parhau i roi'r pwyslais ar atebion da a digonol (2.1.1.17) (<i>Canlyniad Diwedd Blwyddyn 2018/19 - 98.66%</i>)	90%
B3	Gwneud gwahaniaeth (<i>Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol cynaliadwy</i>)	
1	Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn llawn i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn cydymffurfio'n llwyr â nhw, gan gynnwys ystyried y pum ffordd o weithio ym mhopeth a wnawn. MF5-87	Mawrth 2020
2	Byddwn yn datblygu system i roi <u>sicrwydd ar lefel gorfforaethol</u> bod y Cyngor yn ystyried y pum ffordd o weithio yn y camau gweithredu i gyflawni ein hamcanion llesiant. (<i>Cynnig ar gyfer gwelliant yn Adolygiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Swyddfa Archwilio Cymru Ion 2019</i>)	Mawrth 2020
3	Byddwn yn datblygu <u>proses i sefydlu'r 5 Ffordd o Weithio</u> ar draws y Cyngor ac i <u>ddysgu cymaint â phosibl</u> . (<i>Cynnig ar gyfer gwelliant yn Adolygiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Swyddfa Archwilio Cymru Ion 2019</i>)	Mawrth 2020
4	I gryfhau ein hymagwedd tuag at weithio yn y tymor hir, byddwn yn adolygu cyfleoedd i ehangu'r amserlen cynllunio busnes h.y. cynlluniau gwasanaeth i nodi amcanion a risgiau yn y tymor hir (e.e. deg mlynedd). (<i>Cynnig ar gyfer gwelliant yn Adolygiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Swyddfa Archwilio Cymru Ion 2019</i>)	Mawrth 2020
5	Byddwn yn sicrhau bod Grwpiau Cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwneud cynnydd yn erbyn y camau a nodwyd yng Nghynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin.	Mawrth 2020

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
6	Byddwn yn adolygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor.	Mawrth 2021
7	Byddwn yn cynyddu % yr aelwydydd sy'n cyrchu'r Rhyngwyd yn Sir Gaerfyrddin ar sail canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru (ICT/006) (Canlyniad Arolwg Diwedd Blwyddyn 2017/18 - 86%)	87%
B4	Sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y mae'n fwriad gennym ei wneud Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau bwriadedig i'r graddau gorau posibl	
1	Byddwn yn adolygu'r Pecyn Cymorth Rheoli Prosiectau.	Mawrth 2020
2	Byddwn yn parhau i ddatblygu cysylltiadau cryf rhwng Cynlluniau Rheoli Asedau'r Gwasanaeth a'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol.	Mawrth 2021
3	Byddwn yn ailddatblygu'r System Rheoli Gwybodaeth Perfformiad (PIMS).	Mawrth 2020
4	Byddwn yn casglu mwy o wybodaeth am gyflwr ein hadeiladau er mwyn helpu i ddatblygu cynlluniau cynnal a chadw mwy strategol yn y dyfodol.	Mawrth 2021
5	Byddwn yn mynd i'r afael â'r Cynigion ar gyfer Gwelliant a wnaed yn adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau craffu.	Mawrth 2020
6	Byddwn yn gweithredu penderfyniad y Cyngor i sicrhau bod pob aelod a swyddog yn barod i weithio'n ddi-bapur ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd Pwyllgor o 02/09/19 ymlaen ac yn annog Aelodau a Swyddogion i fynychu sesiynau hyfforddi wedi'u teilwra at y diben hwn.	Medi 2019
7	Byddwn yn ceisio gwneud y defnydd mwyaf posibl o Fuddion Cymunedol ym mhob enghraifft o gaffael lle gellir gwireddu buddion o'r fath, ac yn adrodd am y buddion yn achos pob contract sydd dros £1 filiwn.	Mawrth 2020
8	Byddwn yn gweithredu fel galluogwr a chyfryngwr ar gyfer trawsnewid y modd y caiff gwasanaethau ledled y Cyngor eu darparu i gwsmeriaid trwy gynyddu cyfleoedd i gyrchu gwasanaethau'r Cyngor drwy dechnolegau digidol.	Mawrth 2020
9	Byddwn yn cynyddu % y defnydd o'r ddesg gymorth Hunanwasanaeth TGCh (ICT/002) (2018/19 - 45.4%)	48%
B5	Gwerthfawrogi ein pobl; ymgysylltu, arwain a chefnogi (Datblygu capasiti a gallu arweinwyr ac unigolion)	
1	Byddwn yn cefnogi gwaith Bwrdd y Grŵp Strategaeth Pobl a'r ffrydiau gwaith cysylltiedig.	Mawrth 2020
2	Byddwn yn rhoi'r Cynllun Gweithredu Buddsoddwyr mewn Pobl ar waith.	Mawrth 2020
3	Byddwn yn gweithredu Cytundeb Cenedlaethol 2019 yr NJC ar Gyflogau gan gynnwys cyflwyno'r golofn gyflogau newydd.	Ebrill 2019
4	Byddwn yn sicrhau bod gan y defnyddiwr y ddyfais/dyfeisiau TG priodol a'r cysylltedd i ddarparu ei wasanaeth yn effeithiol.	Mawrth 2021
5	Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn rhoi cefnogaeth lawn i helpu staff i gynnal ffordd o fyw iach, a fydd yn cynnwys camau rhagweithiol ac ataliol ac addysg i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pynciau iechyd allweddol a, lle bo'r angen, sicrhau bod absenoldeb salwch ymysg staff yn cael ei reoli'n ofalus er budd y staff a darpariaeth y gwasanaethau. MF5-93	Mawrth 2020

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
6	Byddwn yn cyflwyno gwasanaeth cymorth a chyngor rheoli ariannol a fydd yn cynnwys mynediad i fenthyciadau fforddiadwy i staff y mae eu hangen arnynt. <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 5)</i>	Mawrth 2020
7	Byddwn yn hyrwyddo ymhellach drefniadau pendant o ran rheoli absenoldeb salwch i leihau nifer y dyddiau gwaith / shifftiau y bu i bob gweithiwr awdurdod lleol cyferth ag amser llawn (CALI) eu colli oherwydd absenoldeb salwch. <i>(PAM/001)</i> <i>(Canlyniad diwedd blwyddyn 2018/19 - 9.8 diwrnod)</i>	9.6 diwrnod
8	% o liniaduron a ddefnyddir yn y Cyngor. <i>(ICT/004)</i> <i>(Canlyniad diwedd blwyddyn 2018/19 - 68%)</i>	76%
B6	Rheoli risgiau, perfformiad ac arian <i>(Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref)</i>	
1	Gweithredu'r Strategaeth Rheoli Risg a Chynllunio wrth Gefn.	Mawrth 2020
2	Mynd i'r afael ag unrhyw argymhellion neu gynigion ar gyfer gwelliant sy'n codi o adolygiad SAC o Drefniadau Rheoli Risg – adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru Mai/Mehefin 2019.	Mawrth 2020
3	Byddwn yn sicrhau bod dull cadarn o ymdrin â diogelwch Seiber ac atebion cynaliadwy yn cael eu gweithredu ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth. <i>MF5-90</i>	Mawrth 2021
4	Byddwn yn sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â'r holl safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor neu'n cael eu defnyddio ganddo yn cael eu nodi a'u rheoli'n addas a digonol.	Mawrth 2020
5	Byddwn yn atgyfnerthu ymhellach drefniadau cynllunio ariannol drwy ddatblygu cysylltiadau amlwg rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a phrosesau cynllunio corfforaethol y Cyngor. <i>(Adroddiad Cynllunio Arbedion Menter Cyllid Preifat Swyddfa Archwilio Cymru).</i>	Mawrth 2020
6	Byddwn yn rheoli ac yn gwneud y defnydd gorau o eiddo ac asedau'r Cyngor gan ganolbwyntio ar resymoli swyddfeydd a rhannu â phartneriaid eraill yn ogystal â hwyluso perchenogaeth y gymuned ar asedau er budd y gymuned.	Mawrth 2021
7	Byddwn yn darparu, drwy TGCh, awtomateiddio ac integreiddio prosesau gweithio mewnol a gweithdrefnau i roi bod i arbedion effeithlonrwydd.	Mawrth 2021
8	Byddwn yn gweithio gydag adrannau i weithredu'r cynlluniau Rheoli Categori.	Mawrth 2020
9	Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn rheoli ei gyllidebau'n effeithiol ac yn ddarbodus. <i>MF5-98b</i>	Mawrth 2020
10	Byddwn yn Cau ac yn Archwilio'r Cyfrifon o fewn yr amserlenni priodol.	Mehefin 2019
11	Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio.	Mawrth 2020
12	Byddwn yn clustnodi cyfres o fesurau llwyddiant ariannol	Mawrth 2020
13	Byddwn yn anelu at uchafswm incwm derbyniadau cyfalaf i gefnogi'r rhaglen gyfalaf o £3,076,250. <i>(2.1.2.12)</i> <i>(Canlyniad 2018/19 - 68.27% = £2,100,200)</i>	100%
14	Byddwn yn parhau % y Dreth Gyngor a gesglir <i>(CFH/007)</i> <i>(Canlyniad 2018/19 - 97.64%)</i>	97.5%
15	Ein nod yw casglu o leiaf 98% o'r ardrethi annomestig <i>(CFH/008)</i> <i>(Canlyniad 2018/19 - 98.08%)</i>	98.10%
B7	Tryloywder ac atebolrwydd da <i>(Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol)</i>	
1	Byddwn yn adolygu'r Llawlyfr Archwilio.	Mehefin 2020
2	Byddwn yn sicrhau bod archwiliad anghymwys ar gyfrifon terfynol 2016/17.	Medi 2019

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
3	Byddwn yn anelu at sicrhau gwir gyflawniad yn erbyn y Cynllun Archwilio Blynyddol (6.4.1.3) (Canlyniad 2018/19 - 72%)	90%

Mesurau Llwyddiant
Lefelau absenoldeb oherwydd salwch staff <i>(PAM/001)</i>
Taliadau <i>'Ar-lein Amdani'</i>
Pobl yn cytuno y gallant gyrchu gwybodaeth am yr Awdurdod yn y ffordd y byddent yn ei dymuno. <i>(Arolwg Cenedlaethol Cymru)</i>
Pobl yn gwybod sut i ddarganfod pa wasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu <i>(Arolwg Cenedlaethol Cymru)</i>
Pobl yn cytuno bod ganddynt gyfle i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â rhedeg gwasanaethau'r awdurdod lleol. <i>(Arolwg Cenedlaethol Cymru)</i>
'Costau cynnal' y sefydliad
Pobl yn cytuno bod y Cyngor yn gofyn am eu barn cyn pennu ei gyllideb. <i>(Arolwg Cenedlaethol Cymru)</i>